| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **6 MEHEFIN 2017** |
| TEITL | **SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R TREFNIADAU GWEITHREDU NEWYDD DRAFFT I'R PWYLLGOR ER YSTYRIAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **SYLWEBU AR Y CYNNWYS** |

---

## 1. PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd yn 1999, sy'n golygu mai Gwynedd oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

1.2 Ers hynny, mae rôl a phwrpas greiddiol y Pwyllgor Archwilio wedi aros yn gyson, ond gydag amser mae ei rôl wedi datblygu wrth iddo dderbyn swyddogaethau newydd. Yn ei gyfarfod blynyddol ar 18 Mai 2017, penderfynodd y Cyngor i newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, er mwyn adlewyrchu'n well y rôl ehangach yma.

1.3 Er fod sefydlu Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ystyried yn ymarfer da gan gyrff megis CIPFA ers sawl blwyddyn, gyda gweithrediad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y daethant yn fandadol yng Nghymru.

1.4 Er fod y Mesur yn rhoi'r hawl i'r Cyngor osod unrhyw swyddogaethau addas i'r Pwyllgor (a'r Pwyllgor ei hun sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau), mae'r Mesur hefyd yn gosod allan swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu harddel.

## 2. RÔL CRAFFU

2.1 Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017 y byddai'r Pwyllgor hwn yn parhau i gyflawni holl swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio, ond hefyd yn craffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis Strategaethau Corfforaethol, Partneriaethau, Ymgysylltu, Trawsnewid Busnes, Effeithlonrwydd a'r Gweithlu.

2.2 Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2017, newidiwyd Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu newid yn enw'r Pwyllgor i'r **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**, a'r swyddogaethau craffu newydd y bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â hwy yn sgil y penderfyniad ym Mawrth.

## 3. TREFNIADAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

3.1 Mae Trefniadau Gweithredu drafft newydd wedi eu cynnwys fel Atodiad. Mae'r trefniadau gweithredu yma yn seiliedig ar ofynion y Mesur Llywodraeth Leol, Canllawiau Statudol sydd wedi eu paratoi i'w gefnogi a Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhannau perthnasol o'r Mesur a'r Canllawiau wedi eu cynnwys hefyd.

3.2 Bydd sesiwn hyfforddiant i holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gynnal ar 14 Mehefin, lle bydd ymhlygiadau ymarferol y swyddogaethau hyn yn cael sylw manylach.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys yr atodiad, sylwebu ar ei gynnwys, cynnig addasiadau a mabwysiadu'r Trefniadau Gweithredu.